# 1. FFERM PANTLASAU - HANES A DYFODOL NEWYDD






DDIWEDD Y 18FED GANRIF, CREODD JOHN MORRIS DREF FECHAN AR GYFER GWEITHWYR EI WAITH COPR. DATBLYGODD Y LLE HWN I FOD YN DREFORYS. DROS 200 MLYNEDD YN DDIWEDDARACH MAE EI DDISGYNYDDION AM DDILYN EI ESIAMPL AC YMESTYN EI ETIFEDDIAETH DRWY ADEILADU ANHEDDIAD CYFOES CYFAGOS I GWRDD AG ANGHENION DINASYDDION HEDDIW.



## Y CYNLLUN 10 PWYNT

1. Darparu ysgol gynradd newydd.
2. Darparu gofodau gwyrdd naturiol ac agored fydd yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd yn ogystal â thrigolion lleol.
3. Cysylltu'r gymdogaeth newydd hon â'r gymuned bresennol gan ddefnyddio llwybrau troed a thrywyddau beicio yn ogystal â phriffyrdd.
4. Darparu hwb masnachol bach gyda siopau a gwasanaethau amwynderau lleol.
5. Darparu hwb cymunedol gyda neuadd ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau grwpiau lleol.
6. Darparu cae chwarae diogel a dynamig newydd i blant gydag offer chwarae gwledig.
7. Hierarchaeth o strydoedd sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr.
8. Dylunio ac adeiladu gofodau diogel, cyfeillgar o ansawdd da i bobl ifanc, teuluoedd a phobl hŷn i fyw a thyfu i fyny ynddynt.
9. Darparu datblygiad cynaliadwy sy'n cynnig cartrefi newydd gyda chymysgedd o ddaliadaethau.
10. Y nod cyffredinol, dros y 10 mlynedd nesaf, yw creu cymdogaeth newydd ragorol gan ddefnyddio masnach a sgiliau lleol sy'n gadael treftadaeth ar gyfer pobl Abertawe.





Cymdogaeth newydd, wedi'i chysylltu gyda mannau gwyrdd agored, wedi'u tirlunio, creu cylch cyhoeddus ar gyfer teuluoedd, parau a phobl hŷn.











Cyfuno buddion traddodiadol maestrefi - tŷ, gardd, preifatrwydd, tawelwch a'r buddion cyffredin o isadeiledd ac adnoddau cyhoeddus.



# 2. HANES, ISADEILEDD A CHYFLEOEDD



Trilein
MITCHELL ELEY GOULD





## 1. HANES ABERTAWE

Mae Dinas a Sir Abertawe mewn ardal arfordirol yng Nghymru. Abertawe yw ail ddinas fwyaf Cymru ac mae o fewn yr hen Forgannwg. Yn ystod anterth diwydiannol y 19 ganrif, roedd Abertawe'n ganolfan allweddol i'r diwydiant copr, gan ennill y llysenw 'Copperopolis'.




## 2. DATBLYGIAD TREFORYS

Sefydlu Gwaith Copr y Fforest, ger Fferm Pantlasau, gan y Morrisiaid ddiwedd y ddeunawfed ganrif sbardunodd ddatblygiad Treforys, anheddiad newydd ar raddfa uchelgeisiol iawn.





## 3. DATBLYGIAD Y GRID

Caniataodd patrwm a graddfa ffurfiol y strydoedd o fewn y grid i flociau trefol ffurfio dros amser. Cafodd y dref ei gosod er mwyn caniatáu cymysgedd o strwythurau cymunedol, megis yr eglwys, a chartrefi teuluol.




## 4. ANSAWDD Y FFABRIG ADEILEDIG

Roedd y tai cynnar yn Nhreforys wedi eu hadeiladu fel rhai sengl ond yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth mwy o alw am lefydd i fyw. Cafodd tai eu hadeiladu ochr yn ochr ac fe ddechreuwyd ffurfio terasau a greoedd strydoedd lle'r oedd gweithgareddau cyhoeddus yn gallu digwydd.





## 5. ASESIAD O OFOD AGORED Y WARD

Mae Fferm Pantlasau yn ward Mynydd-bach. Mae lefel da o Ofod Gwyrdd Naturiol Hygyrch a Chaeau mewn Ymddiriedaeth yn y ward ond ar ymylon Fferm Pantlasau mae prinder o'r ddau fath o ddarpariaeth. Ychydig iawn o ofod yn yr awyr agored sydd ar gael i bobl ifanc hefyd.





## 6. CYFLEUSTERAU A CHLUDIANT

Mae'r safle mewn lle da i annog cerdded gyda llwybrau traed o ansawdd da a goleuadau stryd ar y rhwydwaith priffyrdd cyfagos. Mae safle'r datblygiad o fewn 300 metr i drywydd cludiant cyhoeddus prysur gyda chyfartaledd mynychder bysiau o 8.5 munud.




## 7. TOPOGRAFFI A CHYFEIRIADAETH

Mae'r safle goleddu o uchder o 110m ar Heol Clasemont yn y de, i uchder o 90m ar hyd traffordd yr M4 i'r gogledd. Dyma ecoleg pwysig y safle: poblogaethau o ystlumod, adar yn nythu ac yn casglu porthiant, gwrychoedd, coetiroedd a phrysg a'r poblogaethau planhigion mosaig sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwlyptir, cors a gwern. Mae gwrych wedi gordyfu a choed cysylltiedig yn Heol Clasemont. Nod y cynllun yw cadw'r asedau ecolegol hyn a'r nifer uchaf posibl o goed.




## 8. STRWYTHUR TIRWEDD A'R CYLCH CYHOEDDUS

Mae'r safle wedi'i rannu yn ddwy ardal wrthgyferbyniol, sef yr ardal gadwraeth i'r gogledd a'r datblygiad adeiledig i'r de. Bydd ffiniau presennol y safle yn cael eu cadw a'u gwella. Bydd cyfres o ofodau agored naturiol yn rhedeg o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin, ar hyd hen linellau caeau, gan roi mynediad hawdd i'r gymuned. Bydd bylchau yn y gwrych presennol ar Heol Clasemont i ganiatáu gweithgareddau cyhoeddus. Bydd coed ychwanegol hefyd yn cael eu plannu.





## 9. TRYWYDDAU A GRAEN TREFOL

Caiff cysylltiadau eu gwneud ar draws Heol Clasemont. Mae'r strydoedd arfaethedig yn rhedeg yn ddwfn i mewn i'r safle. O ran y graen trefol arfaethedig, mae'r adeiladau wedi cael eu gosod ar grid sylfaenol tebyg i'r un a welir yn Nhreforys. Rydym yn darparu amryw o raddfeydd o ffyrdd sy'n amrywio rhwng Strydoedd a Lonydd. Mae'r tirwedd arfaethedig yn gyfres o ofodau agored gyda choed a gwrychoedd sy'n cysylltu'n ôl â'r coetiroedd, y prysg a'r ardaloedd cadwraeth natur ar y ffin wreiddiol.





## 10. LLWYBRAU A LONYDD BEICIO

Rydym yn darparu cymysgedd o lonydd beicio a thrywyddau i gerddwyr ar draws y safle i greu ffyrdd gwyrdd, di-draffig. Mae'r Trywydd Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) 43 wedi'i leoli tua 2.5 cilometr i'r dwyrain o'r safle, sy'n cysylltu gydag amryw o safleoedd cyflogaeth yn yr ardal yn ogystal â Chanol Dinas Abertawe, mae trywydd 43 hefyd yn cysylltu â thrywydd 4 NCN sy'n cysylltu â'r Mwmbwls. Ein nod yw cysylltu ein llwybrau a'n lonydd gyda'r trywyddau hyn.




## 11. GRWPIO A STRYDLUNIAU

Bwriedir grwpio'r adeiladau gyda'i gilydd i greu ymylon adeiledig caled wedi'u diffinio. Bydd yr ymylon hyn yn diffinio naill ai ymyl stryd, ymyl parc neu dir comin, gan alluogi ymdeimlad parhaus o le a chymuned. Mae adeiladau wedi cael eu dylunio i ymateb i deipoleg teras ac annedd teuluol yn ogystal â fflatiau mwy dwys. Bydd defnyddiau gaiff eu defnyddio yn y cynllun yn ymateb i'r rhai sy'n cael eu defnyddio'n lleol yn cynnwys brics, cerrig, llechi a phren.




## 12. STRYDOEDD A GERDDI

Bydd strydoedd a gerddi'n cael eu gosod mewn dull sy'n caniatáu i'r adeiladau fod yn ddigon dwfn ar gyfer cartrefi preifat a defnyddiau dibreswyl eraill. Bydd cynnig Fferm Pantlasau'n cael ei ddiffinio fel 'Cymdogaeth Newydd', sy'n seiliedig ar yr hen fodel trefol Fictoraidd, wedi'i drefnu mewn dull pensaernïol cyfoes iawn. Lle sy'n gerddadwy ac yn drefol ac yn adeiladu'n weithredol ar nodweddion craidd maestrefol.

# 3. CYSYLLTIADAU LLEOL - PRIFFYRDD, LLWYBRAU TROED A LLWYBRAU BEICIO






CYFFORDD 46

TAGFEYDD -

GWELLIANNAU FYDD YN CAEL EU GWNEUD

CYFFORDD 46

TAGFEYDD -

GWELLIANNAU FYDD YN CAEL EU GWNEUD

CYFFORDD - HEOL CLASEMONT GYDA HEOL Y FICERDY

TAGFEYDD -

GWELLIANNAU FYDD YN CAEL EU GWNEUD

CYFFORDD - HEOL CLASEMONT GYDA HEOL LONGVIEW

TAGFEYDD -

GWELLIANNAU FYDD YN CAEL EU GWNEUD

CYFFORDD - CROES TREFORYS

TAGFEYDD -

GWELLIANNAU FYDD YN CAEL EU

LLWYBRAU TROED

CYSYLLTIADAU

BYDD TRYWYDDAU CERDDED YN CAEL EU DARPARU AR DRAWS Y SAFLE I ALLUOGI CYSYLLTIAD CADARN I'R ARDAL GYFAGOS





LLWYBR BEICIO

SUSTRANS

BYDD DARPARIAETH AR GYFER TRYWYDDAU BEICIO AR DRAWS Y SAFLE A GWELLIANNAU I'R RHAI YN YR ARDAL GYFAGOS

CLUDIANT PREIFAT

PARCIO AR GYFER CEIR

BYDDWN YN DARPARU CYMYSGEDD O ARDALOEDD PARCIO AR Y SAFLE FYDD YN CYNNWYS LLOCHESAU CEIR, PARCIO AR Y STRYD A MEYSYDD PARCIO AR GYFER TRIGOLION AC YMWELWYR






CLUDIANT CYHOEDDUS

GWASANAETH BWS


BYDD GWASANAETH BWS GWELL YN CAEL EI DDARPARU I WNEUD Y SAFLE'N HYGYRCH

ASESIAD CLUDIANT

MAE HYRWYDDWR Y SAFLE'N GWEITHIO'N AGOS GYDA'R AWDURDOD LLEOL I DDYLUNIO ER MWYN CAEL GWARED AR DAGFEYDD TRAFFIG YN YR ARDAL LEOL.

BYDD GWAITH YN DIGWYDD AR YR HOLL GYFFYRDD MAWR SYDD WEDI EU NODI AR Y MAP ER MWYN LLEIHAU TAGFEYDD TRAFFIG YN YR ARDAL.

Cyfleusterau Cymunedol: Safle Strategol E - Tir i’r Gogledd o Heol Clasemont, Treforys





© Crown Copyright and database right 2015 : Ordnance Survey 100023509
© Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2015 : Yr Arolwg Ordnans 100023509

Dylai llefydd cynaliadwy fod yn ‘gymdogaethau cerddadwy’ gyda chymysgedd o ddefnyddiau yn y canol. Dylen ni i gyd allu cael mynediad i amwynderau sylfaenol heb orfod mynd yn ein ceir.



Model Damcaniaethol ar gyfer Rhanbarthau Lleol Cynaliadwy




Dylai cyfleusterau angenrheidiol i gwrdd â’ch anghenion dyddiol fod o fewn taith gerdded fer o’ch cartref - cyfartaledd o ryw 400m neu daith gerdded 5 munud.

Mae’r mapiau a welir yma’n dangos y cyfleusterau cymunedol presennol o fewn 400m i’r safle (uchod), yn ogystal â’r is-ganolfannau presennol yn yr ardal (ar y dde). Ar hyn o bryd nid oes is-ganolfan gyfleus ar gyfer Heol Clasemont a’r ardaloedd cyfagos.









Bydd y datblygiad arfaethedig yn darparu is-ganolfan newydd, i wasanaethu’r gymuned leol bresennol yn ogystal â’r datblygiad newydd, gan ymgorffori siopau, hwb a neuadd gymunedol, ysgol newydd a darpariaeth chwarae. Bydd ein hymgynghoriad cyhoeddus yn ein helpu i ddarganfod beth arall allai fod ei angen.



GWRYCHOEDD PRESENNOL

CREU LLE, SYDD WEDI EI OSOD YN Y TIRWEDD PRESENNOL, FYDD YN GALLU DATBLYGU EI HUNANIAETH UNIGRYW DROS GYFNOD O AMSER.



MANNAU GWYRDD CYHOEDDUS



AILGYLCHU DWR



Y GOLYGFEYDD GWYCH



Y GOEDLIN BRESENNOL



Y STRYDOEDD

DARPARU TAI CYMDEITHASOL FYDD YN ADDAS AR GYFER Y SAFLE. BYDD DOSBARTHIAD Y NIFEROEDD HYN YN AMRYWIO YN ÔL Y CAM DATBLYGU.




Y CAE CHWARAE



DYSGU

“EIN NOD YW OSGOI BLERDWF GWASTRAFFUS, GYDA’R BWRIAD O DDARPARU MAN MWY CYNALIADWY GYDAG AMRYWIAETH O FANNAU CYHOEDDUS FYDD YN CYNNWYS STRYDOEDD, SGWARIAU A GERDDI. Y DYHEAD YW CREU CYMDOGAETH GYNALIADWY LLE BYDD MODD CERDDED, FYDD YN CADW AC YN GWELLA’R ARDALOEDD CADWRAETH NATUR CYFAGOS”.






RHWYDWAITH AR GYFER BEICIO



LLWYBRAU CERDDED PRESENNOL

CYNNIG AMRYWIAETH O LETY PRESWYL, DEFNYDD CYMYSG A DEFNYDD BUSNES, LLETY SY’N ADLEWYRCHU ANGHENION A DYHEADAU DINASYDDION LLEOL FYDD YN LLESOL I’R ECONOMI WEDI’U GOSOD ALLAN MEWN ADEILADAU A THIRWEDDAU SY’N GYNALIADWY AC YN BRIODOL.



TAI MAESTREFOL LLEOL



LLEFYDD I FWYTA AC YFED

Y NOD YW CREU FFURF DREFOL GYDLYNOL, SYDD WEDI EI GWREIDDIO YN EI LLE , SY’N CREU HIERARCHAETH O OFODAU CYHOEDDUS WEDI EU TIRLUNIO AR GYFER Y GYMUNED LEOL A’R GYMUNED EHANGACH.



HWB MASNACHOL

CYNHYRCHU LLE O ANSAWDD SYDD Â GRAEN TREFOL A FFRAMWAITH SY’N CANIATÁU ADDASU, NEWID A THWF YN ÔL Y GALW DROS AMSER.



RHANNU ARWYNEBEDDAU



CYMDEITHASU

# 6. CYNLLUN Y SAFLE



Trilein MITCHELL ELEY GOULD



STRYDOEDD AGORED A DIOGEL


MANNAU GWYRDD CYFOETHOG NATURIOL


GOFOD O ANSAWDD DA


CYNALIADWY


CYMDOGAETH NEWYDD RAGOROL





YSGOL GYNRADD


CERDDED A BEICIO


HWB CYMUNEDOL


YSGOL


HWB MASNACHOL